PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.inf.aber.ac.uk/cymraeg

Gwasanaethau Gwybodaeth NEWYDDION

BUDDSODDWYR MEWN POBL

www.aber.ac.uk/cy/is/news/index.html

Rhagfyr 2009

Ceir yn y fersiwn brintiedig hon o Newyddion GG ond ychydig o'r eitemau newyddion yn llawn, ynghyd â nifer o gyflwyniadau byr i eraill a geir yn eu cyfanrwydd yn y fersiwn ar-lein. Ceir yno hefyd ôl-rifynnau o Newyddion GG ynghyd ag eitemau ac erthyglau diweddar nas ceir yn y fersiwn brintiedig hon.

Dysgu gyda chymorth technoleg: project Gwella Aber

Ar 21 Hydref, cymerodd dros 40 o staff y Brifysgol ran mewn digwyddiad i ddathlu dysgu gyda chymorth technoleg. Bu'r achlysur yn rhan o broject Gwella Aberystwyth, a lansiwyd nifer o fentrau newydd yn ystod y dydd. Roedd y rhain yn cynnwys adnawdd newydd i'r We ar gyfer staff (Nexus) a chyllid ar gyfer projectau datblygu.

Pwrpas Nexus yw tynnu prif ffrydiau gwaith Gwella at ei gilydd, ac mae'r wefan yn cynnwys newyddion am ddatblygiadau yn y Brifysgol ac yn y sector, astudiaethau achos am ddysgu gyda chymorth technoleg, canllawiau ar arferion da a mwy. Cyfeiriad y wefan yw: http://aberystwythuniversity.xwiki.com/.

Nod y diwrnod oedd pwysleisio arferion da ym maes dysgu gyda chymorth technoleg, ac roedd yn cynnwys gorolwg o fentrau Gwella'r Brifysgol, anerchiad gan y siaradwr gwadd – Brian Kelly o UK Web Focus – sesiwn drafod, posteri a chyfle i'r staff ddangos eu defnydd effeithiol nhw o dechnoleg wrth ddysgu.

Project Cymru-eang yw Gwella, a'i nod yw ategu polisi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru "Enhancing Learning & Teaching through Technology: A Strategy for Higher Education in Wales". Mae gweithgareddau Gwella'r brifysgol yn cwmpasu pum maes blaenoriaeth – arferion da, e-asesu, dysgu gyda chymorth technoleg, profiadau'r myfyrwyr a pholisi/gweithdrefnau.

• Mae'r gweithgareddau o ran arferion da yn cynnwys cronfeydd datblygu a theithio ar gyfer staff academaidd, gwefan Nexus, a digwyddiadau fel lansiad Gwella er mwyn lledaenu arferion da yn y Brifysgol a thu hwnt.

• Mae'r mentrau e-asesu yn cynnig cefnogaeth a hyfforddiant gydag asesu ar-lein gan ddefnyddio'r pecyn newydd Questionmark Perception.

• Mae'r fenter dysgu gyda chymorth technoleg wedi ein galluogi i brynu pecyn Campus Pack Web 2.0 tools for Blackboard ac i drefnu sesiynau hyfforddi newydd gan ddefnyddio'r pecyn.

• Mae'r projectau o ran profiadau myfyrwyr yn cynnwys astudiaeth o'u profiadau fel dysgwyr, gyda'r nod o gasglu safbwyntiau myfyrwyr a'u bwydo i mewn i'n gweithdrefnau gwella ansawdd.

• Yn olaf, mae'r staff gweinyddol yn edrych ar bolisi a gweithdrefnau'r Brifysgol er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn well â'r agenda gwella technoleg.

Tîm dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-ganghellor, yr Athro Martin Jones, sy'n goruchwylio mentrau Gwella'r Brifysgol. Mae aelodau'r tîm yn cynnwys staff o bob rhan o'r Brifysgol, gan gynnwys rhai o staff y Ganolfan Datblygu Staff ac Arferion Academaidd (CDSAP) ac aelodau o Dîm E-ddysgu Gwasanaethau Gwybodaeth.

Kate Wright, Swyddog Datblygu E-ddysgu (kaw@aber.ac.uk)

Diwrnod Technoleg Newydd ac Arloesi

Mae Gwasanaethau Gwybodaeth yn gwahodd staff i fynychu diwrnod arbennig lle cânt gyfle i weld y datblygiadau diweddaraf mewn TGCh yn Aberystwyth. Gallai'r dechnoleg a welwch chi ar y diwrnod fod o gymorth i chi yn eich gwaith a/neu eich helpu chi i addysgu'n fwy effeithiol.

Cynhelir y diwrnod yn y Ganolfan Ddelweddu ar gampws Penglais ar 15 Ionawr 2010 a darperir cinio. Croeso i staff ddod i'r sesiynau sydd o ddiddordeb iddyn nhw heb fynychu'r diwrnod cyfan. Croeso hefyd i chi alw heibio i'r stondinau yn y cyntedd i weld y technolegau newydd sydd ar gael, fel Microsoft Windows 7, EBooks ac amrywiaeth o raglenni Rheoli Llyfrgelloedd.

Dyma'r rhaglen ddrafft ar gyfer cyflwyniadau'r diwrnod:

Bore torri tir newydd wrth gyfathrebu

- Cyflwyniad i'r diwrnod a fideo sy'n dangos manteision Negesu Unedig.
- Gwasanaethau Negesu Unedig – dull unedig o gyrchu e-bost, llaisbost, calendrau a rhestrau cysylltiadau gan ddefnyddio cyfrifiadur, Cynorthwyydd Digidol Personol (PDA), llinell ffôn sefydlog neu ffôn poced.
- Manteisio i'r eithaf ar eich ffôn VOIP – mae system ffôn y Brifysgol yn cael ei throsglwyddo'n raddol i system Protocol Llais dros y Rhyngrwyd – dysgwch am nodweddion hyn.
- Gweithio o gartref neu o rywle heblaw'r swyddfa. Mae cyfleusterau ar gael i'ch galluogi chi i weithio o unrhyw le yn y byd fel petaech yn y swyddfa – dysgwch amdanyn nhw.
- Sesiwn Holi'r Panel Cyfathrebu.

Cinio

Prynhawn torri tir newydd wrth Ddysgu ac Addysgu

- Sioe Technoleg Dysgu ac Addysgu – systemau newydd i ategu'ch dulliau dysgu.
- Recordio Darlithoedd – systemau newydd i'ch helpu i recordio a chyflwyno eich darlithoedd a'ch seminarau.
- Sesiwn Holi am Ddysgu ac Addysgu.

Gwnewch eich gorau i ddod draw i fwynhau sesiwn ddiddorol a defnyddiol.

Roger Matthews, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth (rfm@aber.ac.uk)

Cynlluniau Astudio a Modiwlau ar eu newydd wedd

Rydyn ni wedi gweddnewid y tudalennau gwybodaeth am Gynlluniau Astudio a Modiwlau ar y wefan. Gallwch weld y tudalennau hyn trwy fynd i www.aber.ac.uk/cy/study-schemes/ a www.aber.ac.uk/cy/modules/. Mae'r ffordd y cyflwynir y data wedi newid i gyd-fynd â safonau dylunio'r System Rheoli Cynnwys newydd. Tîm y we sy'n gyfrifol am ddylunio a gosod y tudalennau hyn, a'r Gwasanaethau Rheoli Gwybodaeth sy'n gyfrifol am ddarparu'r cynlluniau astudio a'r data o AStRA. Caiff y tudalennau gwe sy'n ymdrin â manylion rhaglenni eu gweddnewid yn yr un ffordd maes o law.

Tîm Gwasanaethau Gwybodaeth Reoli

Tanysgrifiadau Electronig yn Unig

Yn ystod yr haf tynnodd y Llyfrgell sylw adrannau academaidd (ynghyd â gofyn am adborth) at y ffaith ein bod, o fis Ionawr 2010 ymlaen, yn bwriadu symud i fynediad electronig ar gyfer cyfnodolion Gwasg Prifysgol Rhydychen ac Elsevier. Mae hyn yn awr wedi digwydd. Gweler y rhestrau o deitlau cyfnodolion sydd wedi eu trosi i fynediad electronig yn unig.

Mae hyn yn rhan o adolygiad mwy o'r defnydd o gyfnodolion print, wrth i staff a myfyrwyr wneud mwy o ddefnydd o adnoddau electronig ac wrth i ofod presennol yn Hugh Owen a'r llyfrgelloedd adrannol lenwi'n gyflym. Dros y blynyddoedd nesaf rydym yn disgwyl gweld lleihad sylweddol yng nghyfanswm gofod y llyfrgelloedd wrth i'r Strategaeth Ystadau newydd gael ei gweithredu a chanoli gweithgareddau ar Gampws Penglais. Bydd hyn yn anorfod yn galw am adolygiad beirniadol o'r casgliadau presennol wrth i ni geisio chwynnu dyblygion a'u symud i stôr neu waredu'n gyfan gwbl ddeunyddiau nas defnyddir yn aml. I symud hyn rhagddo, mae'r Brifysgol wedi ymuno â'r UK Research Reserve, cynllun newydd a fydd yn sicrhau bod daliadau digonol o brif ddeunyddiau ymchwil ar gael a bod modd cael mynediad hawdd iddynt.

Byddwn yn trafod hyn yng Nghyfarfod Defnyddwyr Gwasanaethau Gwybodaeth a chydag adrannau unigol mewn cyfarfodydd y Ford Gron yn ystod y flwyddyn sy'n dod. Os gwelwch yn dda cysylltwch â'ch llyfrgellydd pwnc os hoffech drefnu cyfarfod.

Julie Hart, Rheolwr Adnoddau Llyfrgell (ujh@aber.ac.uk)

Llwyddiant MOSAIC

Yn ddiweddar enillodd Andrew Isherwood o dîm Systemau'r Llyfrgell ail wobr mewn cystadleuaeth genedlaethol a gynhaliwyd gan brosiect MOSAIC JISC (www.sero.co.uk/jisc-mosaic.html). Hanfod y gystadleuaeth oedd defnyddio gwerth pedair blynedd o ddata benthyca o lyfrgell Prifysgol Huddersfield er mwyn creu rhywbeth defnyddiol a diddorol ohono ar ffurf *application* ar y we.
Roedd rhan o gais Andrew yn galluogi defnyddwyr i weld teitlau a oedd wedi eu hargymell ar gyfer cyrsiau penodol; roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â nifer y benthyciadau fesul cwrs. Gellir gweld cais Andrew ar: www.voyager.aber.ac.uk/mosaic/.

Croesawu Myfyrwyr Newydd

Unwaith eto eleni fe agoron ni'r llyfrgell i fyfyrwyr newydd y penwythnos cyn wythnos y Glas er mwyn eu galluogi i gasglu eu Cardiau Aber, ac i helpu myfyrwyr i sefydlu eu cyfrifon cyfrifiadur a chysylltu â'r rhyngrwyd yn eu neuaddau. Roedd y myfyrwyr wedi sefydlu 2,154 o gyfrifon cyfrifiadur cyn cyrraedd Aberystwyth, a oedd yn golygu ciwiau llai o lawer wrth y ddesg gymorth, a chroeso llai trafferthus i'r myfyrwyr. Cafodd dros fil o Gardiau Aber eu dosbarthu dros y penwythnos hefyd. Daeth 5,281 o bobl i'r llyfrgell dros y penwythnos, sy'n adlewyrchu'r galw mawr am wasanaeth Gwasanaethau Gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Elizabeth Kensler (eak@aber.ac.uk) a Nia Ellis (nrj@aber.ac.uk), Rheolwyr Gwasanaethau Cwsmeriaid



Lansio Gwefan Rhwydwaith Cadwrfeydd Cymru

Pleser gennym gyhoeddi lansiad gwefan newydd Rhwydwaith Cadwrfeydd Cymru (RhCC), ar gael yma www.wrn.aber.ac.uk
Mae Rhwydwaith Cadwrfeydd Cymru (RhCC) yn fenter gydweithredol rhwng y Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru i sefydlu rhwydwaith o gadwrfeydd sefydliadol sy'n cydweddu â'i gilydd, ac i ddatblygu'r rhwydwaith hwnnw a rhoi deunydd yn y cadwrfeydd. Gweledigaeth sylfaenol y rhwydwaith yw hyrwyddo

ac annog rhannu adnoddau ar draws Cymru a sicrhau bod ymchwil yng Nghymru yn cael yr effaith fwyaf posib ar draws y byd.
Er mwyn sefydlu'r rhwydwaith fe fraenarwyd y tir gan Prosiect Cychwyn RhCC, a ariannwyd gan JISC drwy ddarparu cymorth ariannol ac ymarferol i bob partner RhCC er mwyn helpu i roi cadwrfa sefydliadol effeithiol ar waith ym mhob Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru. Mae'r prosiect presennol, sy'n cael ei ariannu gan JISC, Prosiect Datblygu RhCC, yn anelu at fwrw ymlaen ymhellach â gwaith y prosiect blaenorol, gan ystyried posibiliadau model cydweithredol a reolir yn ganolog i gyflymu'r gwaith datblygu a'r twf yn y niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau cadwrfeydd yn Sefydliadau Addysg Uwch Cymru.
Mae gwefan newydd RhCC yn cynnig gwybodaeth am y prosiect, newyddion am weithgareddau cyfredol, a chysylltiadau i ddogfennau a chyflwyniadau gan dîm y prosiect/partneriaid y prosiect.
Ymhlith nodweddion eraill y wefan newydd ceir:
• Chwilio cadwrfeydd partneriaid y prosiect: yn eich galluogi i drawschwilio cynnwys cadwrfeydd y partneriaid trwy osod term chwilio mewn un man yn unig.
•Sgwrsio â thîm RhCC: Defnyddir cleient Google Chat i gynnig cymorth yn y fan a'r lle i ymholiadau gan bartneriaid y prosiect.
•Cysylltiadau Partneriaid/ Botwm RhCC: Map y gellir clicio arno i ddangos lleoliad pob un o'r cadwrfeydd sy'n rhan o Rwydwaith Cadwrfeydd Cymru ac i roi mynediad iddynt.

Yn dod yn fuan:
Adnoddau Dysgu: Adnoddau dysgu ar lein ar amrywiol bynciau sy'n ymwneud â chadwrfeydd y gellir eu defnyddio o bell ar eich pendesg
Croesawn eich adborth ar ein gwefan, felly cymrwch gipolwg, rhowch gynnig ar bethau, a chysylltwch â ni ar 01970 628490 neu drwy e-bost: wrnstaff@aber.ac.uk.

Holl amrywiaeth DIVERSE!

"Torri Tir Newydd wrth Ddatblygu Adnoddau Addysg Gweledol i Fyfyrwyr ym Mhob Man" ("Developing Innovative Visual Educational Resources for Students Everywhere."). Dyna oedd thema'r gynhadledd DIVERSE flynyddol a gynhaliwyd rhwng 24-26 Mehefin yma ym Mhrifysgol Aberystwyth. Denodd

y gynhadledd bobl o bedwar ban byd, a bu'n llwyddiant ysgubol diolch i safon uchel y cyflwyniadau a'r gweithdai. Trefnwyd y gynhadledd gan John Morgan a Janice de Haaff, o'r Ganolfan Iaith a Dysgu, gyda chymorth Mary Jacob, Swyddog E-ddysgu Wasanaethau Gwybodaeth. Bu llwyddiant y gynhadledd yn ddyledus hefyd i safon uchel y cymorth technegol a'r cysylltiadau â'r rhwydwaith a ddarparwyd gan Gwasanaethau Gwybodaeth.
Recordiwyd bron pob un o'r cyflwyniadau, y gweithdai a'r fideo-gynadleddau a fu'n rhan o'r gynhadledd, ac fe'u gosodwyd ar wefan y gynhadledd - y rhan fwyaf ohonynt o fewn oriau. Bu hyn yn bosibl diolch i gymorth Nigel Thomas, Tom Fernandez

a Martin Pugh, ein harbenigwyr technoleg clyweledol o'r gweithdy Microgyfrifiaduron. Nhw fu'n gyfrifol am osod a gweithredu'r microffonau a'r camerâu a recordiodd holl drafodion y tri diwrnod, a Gareth Williams fu wrthi'n eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd yn y fan a'r lle. Recordiwyd y cyfan gan ddefnyddio pecyn masnachol a gynhyrchwyd gan Echo360 www.echo360.com/>. Cewch weld ffrwyth eu llafur o hyd; mae'r rhan fwyaf o sesiynau'r gynhadledd ar wefan y gynhadledd sef: www.aber.ac.uk/diverse www.aber.ac.uk/diverse>.

Gan y bu angen recordio cymaint â thair sesiwn yr un pryd, bu Echo360 mor garedig â benthyca gweinyddion ychwanegol i'r gynhadledd hefyd.
Bu Geoff Constable a Matt Collins o Rwydwaith Fideo Cymru Gwasanaethau Gwybodaeth wrthi'n rhoi cymorth ychwanegol i'r sesiynau lle'r oedd angen fideo-gynadledda. Ni fu modd i un cynrychiolydd ddod i gyflwyno sesiwn fyw ar fyr rybudd am resymau teuluol, ond bu modd iddi gyflwyno'i sesiwn i'r gynhadledd diolch i fideo-gynhadledd a drefnwyd ar y funud olaf rhwng Aberystwyth a Dulyn. Diolch o galon i Direct Visual, fu'n gyfrifol am fenthyca'r offer i hwyluso hyn. Yn ystod darlith ar JANET Collaborate, galluogodd Tim Boundy o JANET-UK y cynrychiolwyr i ryngweithio â thair o amgueddfeydd Prydain yr un pryd o'r stiwdio fideo-gynadledda a ailwampiwyd yn Llyfrgell Hugh Owen.
Mae'r bobl sy'n dod i gynadleddau DIVERSE yn gwybod eu stwff am dechnoleg, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt am fod ar-lein o fewn eiliadau ar ôl cyrraedd. Defnyddiodd nifer sylweddol o'r 120 a mwy o gynrychiolwyr y cysylltiadau diwifr â'r rhyngrwyd a ddarparwyd ar eu cyfer yn adeiladau Hugh Owen a Phenbryn i gyrchu'r we o amrywiaeth o wahanol liniaduron. Cafodd pawb eu cysylltu'n llwyddiannus a bu Hefin James a Mark Baptiste o Dîm Datblygu'r Rhwydwaith wrth law i ddatrys unrhyw broblemau. Mae'n siŵr taw hwn oedd y prawf straen mwyaf un ar y rhwydwaith diwifr hyd yn hyn, a chododd i'r her heb unrhyw drafferthion.
Yn ystod sesiwn olaf y gynhadledd, cafodd cyfraniad y staff technegol ei gydnabod wrth i'r holl gynrychiolwyr sefyll ar eu traed i gymeradwyo'u hymdrechion – recordiwyd y cyfan a gallwch ei weld ar y we!

Geoff Constable, Swyddog Cymorth Rhwydwaith Fideo Cymru (ccc@aber.ac.uk)

Gwe-gleient y Myfyrwyr

Mae gwaith wedi dechrau i ailddatblygu gwe-gleient y myfyrwyr. Dyma'r system y mae myfyrwyr yn ei defnyddio i weld a diweddaru eu cofnodion personol ac academaidd, ac mae'n cynnwys cyfleuster i weld marciau arholiad ac amserlenni hefyd. Mae'r system bresennol wedi bod ar waith ers tua 10 mlynedd – Aberystwyth oedd un o'r sefydliadau cyntaf ym Mhrydain i ddefnyddio'r we i roi marciau arholiad i fyfyrwyr. Mae'r amrywiaeth o ddata a swyddogaethau y mae'r system yn eu cynnig wedi tyfu i'r fath raddau dros y blynyddoedd nes ei bod hi'n anodd eu datblygu ymhellach. Y nod yw sicrhau bod y system newydd yn barod erbyn semester 2. Rydyn ni'n disgwyl iddi gynnwys rhai nodweddion newydd, fel system ddiogel i gyfathrebu â myfyrwyr, a rhyngwyneb sy'n cyd-fynd â dyfeisiau symudol (bychain).

Tîm Gwasanaethau Gwybodaeth Reoli

Y Gyfnewidfa Lyfrau

Mae hon yn ôl diolch i alw mawr. Y llynedd, cyflwynodd Llyfrgell Hugh Owen y Gyfnewidfa Lyfrau, oedd yn golygu bod defnyddwyr y llyfrgell yn gallu dod â llyfrau diangen i'r llyfrgell a'u cyfnewid am lyfrau eraill. Mae'r Gyfnewidfa Lyfrau boblogaidd yn nodwedd barhaol ar Lefel D o Lyfrgell Hugh Owen erbyn hyn ac mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim. Mae gennym amrywiaeth eang o deitlau sydd wedi cael eu cyflwyno neu eu cyfnewid gan ddefnyddwyr, ac mae'r casgliad yn newid gyda phob cyfnewid. Y cyfan sydd ei angen arnoch yw hen lyfr i'w gyfnewid. Galwch heibio i weld beth sydd ar gael ac i gyfnewid hen lyfrau diangen am rywbeth newydd.

Elizabeth Kensler (eak@aber.ac.uk) a Nia Ellis (nrj@aber.ac.uk), Rheolwyr Gwasanaethau Cwsmeriaid

Tata Tweek

Rhoddwyd y gorau i gynnal Tweek dros yr haf, ac mae'r System Monitro Presenoldeb Myfyrwyr (SAMS) wedi cymryd ei lle. Mae SAMS (sydd ar gael i ddefnyddwyr cofrestredig yn <www.sams.aber.ac.uk>) yn gweithio gyda'r wybodaeth a gedwir yn AstRA, fel manylion grwpiau seminar a modiwlau myfyrwyr. Mae'r system yn cynnwys data am amserlenni hefyd er mwyn darparu rhestr gynhwysfawr o bwy sydd i fod yn bresennol ym mhob seminar a darlith. Mae amserlenni'r myfyrwyr, sydd ar gael ar we-glient y myfyrwyr, wedi cael eu datblygu i alluogi'r myfyrwyr i gofnodi rheswm dros golli seminar neu ddarlith (neu dros gyfnod o absenoldeb). Caiff gwaith pellach ei wneud i ddatblygu adroddiadau y gall staff academaidd eu cwblhau pan fyddwn ni'n gwybod pa wybodaeth yn union sydd ei hangen arnynt.

Tîm Gwasanaethau Gwybodaeth Reoli

Diogelu eich cyfrinair, enw defnyddiwr a chyfeiriad e-bost

Gwnewch yn siŵr nad ydych yn defnyddio eich enw defnyddiwr (e-bost) a chyfrinair Prifysgol Aberystwyth wrth gyrchu e-gyfnodolion, e-lyfrau ac adnoddau electronig eraill Prifysgol Aberystwyth. Dylech ond defnyddio'r rhain ar wefan neu flwch deialog sydd ym mharth .aber.ac.uk e.e. shibboleth.aber.ac.uk.

Ceir cyfarwyddiadau ar sut i gyrchu e-gyfnodolion, ayb, oddi ar y campws yn y nodyn "Authentication" yn E-gyfnodolion@Aber neu trwy ddefnyddio'r botwm 'i' yn yr elyfrgell. Cyrchwch y rhain trwy gyfrwng Voyager neu borth yr E-wybodfa: www.aber.ac.uk/cy/is/elecinfo/index.html.
Os byddwch yn defnyddio eich enw defnyddiwr neu e-bost Prifysgol Aberystwyth ar dudalen gwe sydd heb y cyfeiriad aber.ac.uk rhaid ichi ddefnyddio cyfrinair gwahanol. Os na wnewch hynny bydd eich cyfrif cyfrifiadurol yn cael ei gloi er mwyn eich amddiffyn rhag gwe-rwydo, sef eraill yn darganfod eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair (gweler: www.inf.aber.ac.uk/advisory/faq/502/)

Os bydd eich cyfrifiadur yn cael ei gloi cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori www.inf.aber.ac.uk/advisory/cymraeg/faq/93/
Am gymorth pellach, e-bostiwch advisory@aber.ac.uk neu ejournals@aber.ac.uk.

Sandra Morris, Swyddog Datblygu Gwybodaeth Electronig, (ssm@aber.ac.uk) a Joy Cadwallader, Gwasanaethau Academaidd a Gwasanaeth Cynghori (jrc@aber.ac.uk)

Gwasanaethau Gwybodaeth yn defnyddio gwe2.0

Fel rhan o'n hymdrechion i ddarparu gwybodaeth mewn ffordd amserol a pherthnasol, mae Gwasanaethau Gwybodaeth yn ddiweddar wedi darparu nifer o ffyrdd newydd o ddarganfod beth sy'n digwydd yn yr adran.
Gallwch dderbyn newyddion Gwasanaethau Gwybodaeth yn syth i'ch e-bost neu i'ch darllenydd RSS. Mae'r newyddion ar gael ar www.aber.ac.uk/cy/is/news/index.html a chewch gyfarwyddiadau ar sut i osod gwasanaeth RSS i'ch e-bost neu'ch darllenydd o www.tinyurl.com/rss-add
Gall defnyddwyr Twitter hefyd ddilyn newyddion GG ar www.twitter.com/prfysgolaber_gg er mwyn derbyn diweddariadau.
Mae gwybodaeth arbenigol ar bynciau ar gael o blog Cymorth Pwnc ac E-Lyfrgell www.cpelaber.blogspot.com/
Mae blog ar wefan Nexus ar gyfer gwella dysgu gyda thechnoleg yn cynnwys diweddariadau ar brosiectau Gwella PA, a thechnolegau a gwasanaethau newydd i'w cael trwy GG. www.aberystwythuniversity.xwiki.com/xwiki/bin/view/Blog/
Fe fyddwn yn edrych ar sut yr ydym yn defnyddio technolegau gwahanol i gyfathrebu â'n defnyddwyr, ac i gyflwyno ein gwasanaethau iddynt. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau, cysylltwch â Nia Ellis (ebost: nrj@aber.ac.uk)

Elizabeth Kensler (eak@aber.ac.uk) a Nia Ellis (nrj@aber.ac.uk), Rheolwyr Gwasanaethau Cwsmeriaid

Caledwedd Newydd

Mae'r systemau QL (Cyllid) ac AStRA yn rhedeg ar y gweinyddwyr cronfa ddata Sun newydd. Mae'r rhain yn fwy dibynadwy ac yn perfformio'n well. Bydd y system Amserlennu a Cyborg (AD / Cyflogres) yn symud i'r gweinyddwyr newydd dros yr wythnosau nesaf hefyd.

Tîm Gwasanaethau Gwybodaeth Reoli

Twitter

Am fwy o Newyddion GG a diweddariadau, ymunwch â ni ar Twitter ar www.twitter.com/aberuni_is

Elizabeth Kensler (eak@aber.ac.uk) a Nia Ellis (nrj@aber.ac.uk), Rheolwyr Gwasanaethau Cwsmeriaid

Tîm Golygyddol

Elgan Davies (epd), Roger Matthews (rfm), Monica Decelis (mwd), Jacqui Kenton (jck), Christine Hughes (cmh), Jackie Woollam (jaw), Kate Wright (kaw)

Gwasanaethau Gwybodaeth, Prifysgol Aberystwyth, Penglais, Aberystwyth, SY23 3DZ.

Cyhoeddir NEWYDDION GG yn rhad ac am ddim gan Gwasanaethau Gwybodaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Croesewir eich sylwadau a'ch syniadau. Os nad ydych wedi derbyn copi personol ohono ac y dymunwch gael un yn y dyfodol, gellir ychwanegu eich enw at y rhestr ddosbarthu drwy gysylltu â'r Golygydd (epd@aber.ac.uk).